**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Sesiwn Gwrandawiad 9 – Wylfa Newydd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S9/PG1 | Rheoliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol | Paratoi papur sy'n cyflwyno'r farn gyfreithiol a gafwyd ynglŷn â chydymffurfiaeth gyda Rheoliadau AIC. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG2 | | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i roi eglurder ynglŷn â blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn gysylltiedig a Wylfa Newydd, gan adeiladu ar yr egwyddorion a roddir yn y cyflwyniad i'r Canllaw Cynllunio Atodol cyfredol. Os ydi adeiladau parhaol yn cael eu gwaredu ac mai defnydd preswyl ydi'r etifeddiaeth, dylid cyfeirio at gasgliadau'r Astudiaeth Marchnad Tai Lleol er mwyn eglurder i'r sawl sy'n hyrwyddo'r prosiect o'r cychwyn.<br><br>Egluro bod 7.3 yn cyfeirio at y CCA diwygiedig. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG3 | TAI 3 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i roi eglurder ynglŷn â sgôp y Polisi, sef llety dros dro modwlar graddfa fach i weithwyr adeiladu. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG4 | Polisi Newydd – llety dros dro modwlar graddfa fawr | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gyflwyno polisi newydd i roi arweiniad clir trwy agwedd sail meini prawf ynglŷn â disgwyliadau/ blaenoriaethau'r Cyngor yn gysylltiedig â llety modwlar ar raddfa fawr i weithwyr adeiladu (500 + o weithwyr), gan gynnwys cyfeiriad at gyfleusterau/ isadeiledd cefnogol/ atodol. Adolygu'r hierarchaeth sy'n cyfeirio datblygiadau fel yma i lefydd du mewn i aneddleoedd fel yr opsiwn cyntaf ac ailystyried os mai dyna yw'r agwedd mae'r Cynghorau yn dewis ei ddilyn o gofio'r ardrawiadau tebygol. Sicrhau | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 9 – Wylfa Newydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | bod y datblygiad yn cael ei gyfeirio mewn ffordd sydd ddim yn difrodi beth mae’r sector dwristiaeth yn gynnig ar yr Ynys. | |
| S9/PG5 | Polisi Newydd – canolfan logisteg | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i gyflwyno polisi newydd i roi arweiniad clir ynglyn a disgwyliadau/ blaenoriaethau’r Cyngor yn gysylltiedig â chanolfan logisteg ar gyfer Wylfa Newydd, sy’n cynnwys canllawiau lleoli ar ffurf meini prawf dewis safle. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG6 | Polisi Newydd – cyfleuster parcio a theithio | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i gyflwyno polisi newydd i roi arweiniad clir ynglyn a disgwyliadau/ blaenoriaethau’r Cyngor yn gysylltiedig â chyfleuster parcio a theithio ar gyfer Wylfa Newydd. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG7 | TRA 1 | Cyflwyno Newid Materion sy’n codi i gyflwyno’r newidiadau ôl-ddilynol a fydd eu hangen yn sgil pwyntiau gweithredu S9/PG4, S9/PG5 & S9/PG6 | Erbyn 14/10 |
| S9/PG8 | TAI 8 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i fireinio’r Polisi i sicrhau<br><br>• bod ei sgôp yn glir<br>• cysondeb gyda Pholisi TWR 3<br>• ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau’r Cynghorau i gynnal y sector twristiaeth. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG9 | TAI 2 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i sicrhau eglurder ynglyn a chyfleoedd i wneud defnydd llawn o dai & adeiladau presennol. | Erbyn 14/10 |
| S9/PG10 | PS9 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i: | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 9 – Wylfa Newydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | • egluro'r cyfeiriad at "isadeiledd gwyrdd";<br>• gael gwared â maen prawf 7 sy'n cyfeirio at y Rheoliadau Cynefinoedd<br>• gael gwared â maen prawf 11 sy'n cyfeirio at "fudd cymunedol gwirfoddol"<br>• ail-eirio maen prawf 12 trwy gael gwared â'r ddau is faen prawf cyntaf a diwygio'r trydydd. | |
| S9/PG11 | Fframwaith Fonitro | Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau'r fframwaith fonitro. Yn achos Wylfa Newydd – adnabod dangosyddion sydd yn gysylltiedig a chyfnodau allweddol i'r prosiect.<br><br>Cyflwyno Fframwaith Fonitro diwygiedig wythnos cyn dyddiad y Gwrandawiad am y pwnc yma. | Erbyn 14/10 |